PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# RHEOLI DIOGELWCH DŴR (Clefyd y Lleng Filwyr)
# POLISI IECHYD A DIOGELWCH

| **Dyddiad** | **Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid** | **Cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb** |
|---|---|---|
| 2003 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 27 Chwefror 2020 | Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | Ionawr 2020 |
| 25 Medi 2025 | Adolygwyd gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau | Chwefror 2025 |

| **Swyddog Polisi** | **Uwch Swyddog Cyfrifol dros Bolisi** | **Cymeradwywyd yn y lle cyntaf gan** | **Dyddiad y cymeradwyaeth gyntaf** |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Iechyd a Diogelwch | Prif Swyddog Gweithredu | Pwyllgor Iechyd a Diogelwch | 2003 |

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2028

## 1. RHAGARWEINIAD A DIBEN

Mae dau brif bwrpas i'r polisi, sef cadarnhau trefniadau i reoli Clefyd y Lleng Filwyr a sefydlu gofynion ar gyfer darparu dŵr yfed. Dylid darllen y Polisi hwn ar y cyd â Chynllun Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr Adrannol Isadeiledd Ystadau a Digidol.

Niwmonia a achosir gan facteria yw Clefyd y Lleng Filwyr a geir yn gyffredin mewn gwasanaethau dŵr poeth ac oer ac mewn systemau megis tyrau oeri, dŵr wedi'i storio, chwistrellwyr gardd a chawodydd.

Er bod y bacteria yn gyffredin yn yr amgylchedd, mae'r salwch sy’n gysylltiedig fel rheol yn cael ei ddal trwy anadlu dŵr halogedig ar ffurf defnynnau bach (aerosolau) neu mewn cnewyllyn defnyn halogedig (y gronynnau a adewir ar ôl i'r dŵr anweddu). Nid yw lledaeniad y clefyd o berson i berson wedi'i ddogfennu.

Mae tua 250 o achosion o Glefyd y Lleng Filwyr wedi eu cadarnhau’n cael eu hadrodd bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig, gyda thua 25 o bobl yn marw bob blwyddyn. Amcangyfrifir bod nifer gwirioneddol yr achosion yn fwy na 4000 bob blwyddyn, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dioddef symptomau tebyg i ffliw heb ddirywiad difrifol. Mae unigolion sy'n agored i niwed, megis yr henoed, ysmygwyr, pobl sydd â hanes o glefyd bronciol, mewn mwy o berygl.

Mae'r bacteria Clefyd y Lleng Filwyr yn gallu ffynnu ar dymheredd rhwng 20-45 ° C a phan fo'r amodau'n iawn; er enghraifft, os oes cyflenwad o faetholion fel rhwd, llaid, cen, algâu a bacteria eraill yn bresennol.

Mae'r Polisi hwn hefyd yn ystyried darpariaeth dŵr yfed yn y gweithle, fel gofyniad deddfwriaethol a disgwyliad elfennol gan fyfyrwyr a staff. Mae cyflenwi dŵr yfed hefyd yn cefnogi llesiant personol a chynaliadwyedd adnoddau drwy leihau'r angen am ddŵr potel.

## 2. DATGANIAD POLISI

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo’n ymarferol bosib, ac yn unol â’r gofynion statudol perthnasol a’r arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch y staff, y myfyrwyr ac ymwelwyr â'r Brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r gofynion a osodir ar y brifysgol a'r colegau a'r gwasanaethau proffesiynol o ran rheoli systemau dŵr ac aerdymheru i atal dod i gysylltiad â Chlefyd y Lleng Filwyr.

Mae'r polisi hefyd yn cadarnhau'r gofyniad i ddarparu dŵr yfed mewn adeiladau a ddefnyddir.

**Mae’r polisi'n berthnasol i’r canlynol:**

- Yr holl gyflenwadau dŵr yn adeiladau'r brifysgol, gan gynnwys Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc), a'r holl offer sy'n gysylltiedig â'r cyflenwad dŵr ac a allai achosi risg o Glefyd y Lleng Filwyr.
- Yr holl offer neu systemau sydd â’u cronfa ddŵr annibynnol eu hunain ac a allai beri risg o Glefyd y Lleng Filwyr.
- Y brifysgol a'r holl golegau, ysgolion a'r gwasanaethau proffesiynol sy'n gweithredu neu'n rheoli offer/systemau a allai beri risg o Glefyd y Lleng Filwyr.
- Staff, myfyrwyr, ymwelwyr a chontractwyr.

**Nid yw’r Polisi'n berthnasol i'r isod:**

- Systemau dŵr môr
- Llong Ymchwil y Prince Madog

- Offer sy'n eiddo i denantiaid y Brifysgol a thenantiaid M-SParc, neu sy’n cael ei reoli ganddynt, sydd â'u dyletswydd gyfreithiol eu hunain i reoli risg Clefyd y Lleng Filwyr o weithrediadau ac offer.

## 3. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG A DEDDFWRIAETH

Yn ogystal â'r dyletswyddau cyffredinol hynny yn ôl y gyfraith, mae gan y Brifysgol a'i Cholegau, Ysgolion a Gwasanaethau Proffesiynol cyfansoddol rwymedigaeth benodol o dan:

- Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH): Asesu a rheoli'r risg o ddod i gysylltiad â sylweddau (gan gynnwys bacteria) a all niweidio iechyd dynol.
- Cod Ymarfer Cymeradwy'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, L8: Rheoli Bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn Systemau Dŵr: Caiff y gwaith o reoli risgiau sy'n gysylltiedig â'r bacteria *Legionella niwmophila* ei lywodraethu ymhellach gan L8 sy'n manylu ar drefniadau penodol y dylai pob cyflogwr a'r rhai sydd â chyfrifoldeb am reoli safleoedd eu dilyn i atal a/neu reoli'r risg o ddod i gysylltiad â bacteria Clefyd y Lleng Filwyr.
- (Rheoliadau Lles, Iechyd a Diogelwch )y Gweithle: Yn manylu ar y gofynion o ran darparu dŵr yfed iachus, gyda safon perfformiad gofynnol wedi'i phennu.
- Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 a Rheoliadau Adeiladu, Dogfen Gymeradwy G: Atodiad L8 a chynghori a phennu ar ofynion dylunio a gosod systemau dŵr.

## 4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

| | |
|---|---|
| **Deiliaid Dyletswyddau**: | Y Brifysgol, fel y cyflogwr, yw'r Deiliad Dyletswyddau o ran adeiladau Prifysgol Bangor a gweithgareddau cysylltiedig.<br><br>I MSParc, Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf. yw'r Deiliad Dyletswyddau, fel y cyflogwr. |
| **Unigolyn/Unigolion Cyfrifol:** | Penodi 'unigolyn cyfrifol' y brifysgol fel y'i diffinnir yn L8. Gall fod yn unigolyn neilltuol neu'n nifer o unigolion sydd â meysydd cyfrifoldeb ac arbenigedd penodol, yn cynnwys contractwyr neu ymgynghorwyr arbenigol. |

## 5. CYFRIFOLDEBAU DEILIAID DYLETSWYDDAU A PHERSONIAU CYFRIFOL

Mae gan Ddeiliaid Dyletswyddau a Phersonau Cyfrifol dros reoli Clefyd y Lleng Filwyr a diogelwch dŵr ddyletswyddau a chyfrifoldebau penodol.

### a. Deiliaid Dyletswyddau: Y Brifysgol a Pharc Gwyddoniaeth Menai Cyf.

Fel dau gyflogwr ar wahân, ystyrir bod y Brifysgol a Pharc Gwyddoniaeth Menai Cyf. yn Ddeiliaid Dyletswydd, a fydd felly yn:

i. Penodi Person Cyfrifol cymwys sydd â digon o awdurdod, hyfforddiant a gwybodaeth am y gosodiad(au) i helpu i gymryd y mesurau sydd eu hangen i gydymffurfio â'r gyfraith.

ii. Rhoi systemau a threfniadau sydd ag adnoddau addas ar waith i reoli risg Clefyd y Lleng Filwyr ac i ddarparu dŵr yfed.

iii. Gweithredu system reoli addas i reoli risg Clefyd y Lleng Filwyr, yn unol â deddfwriaeth a'r Cod Ymarfer Cymeradwy (ACOP)[1] L8: Rheoli Bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn Systemau Dŵr.

iv. Yn gofyn bod dŵr yfed ar gael yn rhwydd i staff a myfyrwyr.

**b. Unigolyn/Unigolion Cyfrifol** [2]

Yn unol ag L8, ac ar ran y Brifysgol[3], bydd Isadeiledd Ystadau a Digidol yn cadarnhau penodiad Person(au) Cyfrifol cymwys i reoli risg Clefyd y Lleng Filwyr o ddydd i ddydd, a fydd yn:

i. Sicrhau bod ffynonellau posibl o Glefyd y Lleng Filwyr yn cael eu nodi, a pharatoi a/neu drefnu i asesiadau risg/cynlluniau ysgrifenedig Clefyd y Lleng Filwyr (neu gamau gweithredu) i atal neu reoli risg.

ii. Sefydlu trefniadau rheoli fel y manylir yn yr asesiad risg Clefyd y Lleng Filwyr a/neu'r cynllun ysgrifenedig.

iii. Cadarnhau bod trefniadau rheoli Clefyd y Lleng Filwyr yn briodol ar gyfer systemau dŵr mewn adeiladau ar brydles gan y brifysgol, yn unol â chytundebau'r brydles.

iv. Cadw cofnodion fel sy'n ofynnol gan asesiad risg Clefyd y Lleng Filwyr a/neu'r cynllun ysgrifenedig ac unrhyw archwiliadau eraill, gwaith cynnal a chadw sy'n gysylltiedig â system ddŵr.

v. Darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant perthnasol (yn cynnwys hyfforddiant diweddaru) i'r rhai sydd â chyfrifoldebau penodol e.e. staff cynnal a chadw a staff technegol mewn ysgolion.

vi. Sicrhau bod lluniadau/cynlluniau sgematig priodol o systemau dŵr yn cael eu cynnal.

vii. Cymeradwyo ymlaen llaw, holl addasiadau/newidiadau, gosodiadau newydd, neu ychwanegiadau i systemau dŵr, a sicrhau bod y rhain yn cydymffurfio â Safonau Prydeinig perthnasol ac L8.

viii. Comisiynu addasiadau/newidiadau, gosodiadau newydd neu ychwanegiadau a diweddaru lluniadau perthnasol a data technegol yn ôl yr angen. Diwygio'r asesiad risg, yn ôl yr angen.

ix. Monitro ac adolygu effeithiolrwydd trefniadau rheoli, gan gynnwys asesiadau risg/cynlluniau ysgrifenedig Clefyd y Lleng Filwyr.

x. Arwain a chynghori cydweithwyr, contractwyr, colegau, ysgolion a gwasanaethau proffesiynol o ran camau rheoli Clefyd y Lleng Filwyr fel sy'n briodol.

xi. Rhoi gwybod ar unwaith am yr holl achosion Clefyd y Lleng Filwyr a amheuir a chanlyniadau profion Clefyd y Lleng Filwyr positif cymwys i'r brifysgol (trwy Iechyd a Diogelwch), a fydd wedyn yn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lle bo angen.

## 6. Isadeiledd Adeiladu[4]

[1] Cynhyrchwyd dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)

[2] Fel y'i diffinnir gan ACOP L8: Rheoli Bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn Systemau Dŵr.

[3] O ran M-Sparc, bydd Parc Gwyddoniaeth Menai Cyf. yn enwebu Person cyfrifol cymwys a fydd yn ymgymryd â'r un dyletswyddau, yn ôl yr angen.

[4] Yn gyfrifol am yr ystâd gyffredinol a'r holl isadeiledd cyflenwi dŵr (hynny yw, pibellau sefydlog a chydrannau parhaol eraill o'r system ddŵr hyd at allfeydd tapiau a chawodydd) mewn adeiladau sy'n eiddo i'r brifysgol neu sy'n cael eu rheoli ganddi.

Isadeiledd Ystadau a Digidol, adran ystadau, cynnal a chadw a rheoli eiddo'r Brifysgol, sy'n gyfrifol am yr holl wasanaethau adeiladu ac felly, bydd yn:

i. Cynhyrchu, gweithredu a chynnal Cynllun Rheoli Clefyd y Lleng Filwyr.

ii. Sicrhau yr ymgynghorir â'r Person Cyfrifol cyn gwneud addasiadau newydd a sylweddol i osodiadau a systemau dŵr.

iii. Sicrhau bod contractwyr a staff a benodir i gynllunio, cynnal a chadw neu reoli systemau dŵr yn gymwys i wneud hynny ac yn cael gwybodaeth berthnasol i ymgymryd â'r rôl.

iv. Sicrhau bod pob system ddŵr yn cael ei nodi, ei chofnodi, ei hasesu'n addas am risg, a'i chynnal a'i chadw, yn unol ag amserlen a chynllun rheoli y cytunwyd arnynt, gan gynnwys:

- caeau chwaraeon a systemau dyfrhau neu wlychu eraill
- systemau lleithio
- systemau niwlio
- peiriannau gwneud iâ
- systemau llygaid a golchi brys

v. Sicrhau bod protocolau a chamau gweithredu sy'n ofynnol gan asesiad risg a/neu'r Person Cyfrifol yn cael eu gweithredu, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

vi. Sicrhau bod landlordiaid adeiladau y mae'r brifysgol yn eu defnyddio yn gweithredu trefniadau rheoli addas a digonol i reoli Clefyd y Lleng Filwyr, neu, lle bo hynny'n berthnasol, ac yn unol â chytundebau prydles, bod trefniadau'r brifysgol mewn grym i sicrhau bod risg yn cael ei reoli.

vii. Sicrhau bod canfyddiadau'r asesiadau risg yn cael eu rhannu â cholegau, ysgolion a gwasanaethau proffesiynol sy'n defnyddio'r adeiladau, fel sy'n briodol i'r risg.

viii. Sicrhau cyflenwadau digonol o ddŵr yfed iach ym mhob adeilad a ddefnyddir, gyda'r rhain wedi'u labelu'n unol â hynny.

ix. Sicrhau, o ran Neuaddau sy'n eiddo i'r brifysgol, bod y Person Cyfrifol yn cael gwybod am bob bloc, coridor neu adenydd preswyl gwag ac achosion o gau neuaddau preswyl cyfan, a fydd yn gweithredu rheolaethau priodol yn unol â'r asesiad risg a'r cynllun rheoli Clefyd y Lleng Filwyr.

x. Cadarnhau bod trefniadau ar waith ar gyfer darparwyr llety preswyl trydydd parti, gan gadarnhau gyda chymorth y Person Cyfrifol bod risgiau Clefyd y Lleng Filwyr yn cael eu rheoli'n addas.

xi. Sicrhau, yn unol â Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Gosodiadau Dŵr) 1999, bod dyfeisiau siffonau dŵr yn cael eu gosod yn ôl yr angen ar draws yr ystâd.

## 7. DYLETSWYDDAU COLEGAU, YSGOLION A GWASANAETHAU PROFFESIYNOL [5]

Mae pob coleg/ysgol/gwasanaeth proffesiynol yn gyfrifol am offer/systemau sy'n eiddo i goleg/ysgol/gwasanaeth neu a weithredir ganddynt a phibellau cysylltiedig sydd ynghlwm wrth isadeiledd y system ddŵr neu sydd â'i gronfa ddŵr annibynnol ei hun.

[5] Gweler y daflen wybodaeth: Rheoli peryglon Clefyd y Lleng Filwyr sy'n gysylltiedig ag offer sy'n eiddo i goleg/ysgol/gwasanaeth

Mae’r cyfrifoldeb hwnnw'n cynnwys gweithredu mesurau diogelwch a luniwyd gan y brifysgol, y tîm Digidol ac Isadeiledd Ystadau, yr unigolyn cymwys ac eraill, a chydweithredu â’r mesurau hynny, i sicrhau iechyd a diogelwch lles staff, myfyrwyr, contractwyr ac ymwelwyr â'u coleg/ysgol/gwasanaeth.

Gan hynny, bydd pob coleg, ysgol a gwasanaeth proffesiynol lle bo hynny'n berthnasol yn gwneud y canlynol:

<u>Cyffredinol:</u>

i. Nodi ac asesu'r risg dod i gysylltiad â'r bacteria Clefyd y Lleng Filwyr o offer sy'n eiddo i'r coleg/ysgol/gwasanaeth neu a weithredir ganddynt neu beiriannau/pibellau perthnasol sydd ynghlwm i'r system ddŵr.

ii. Cadw at is-ddeddfau dŵr lleol a sicrhau nad oes unrhyw risg ôl-seiffonio dŵr o offer neu bibellau sydd wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r prif gyflenwad dŵr.

iii. Cyflwyno a monitro trefniadau i sicrhau bod eitemau perthnasol yn cael eu gweithredu, eu cynnal a'u cadw a'u glanhau yn ôl yr angen i atal y risg dod i gysylltiad â bacteria Clefyd y Lleng Filwyr.

iv. Rhoi hyfforddiant neu wybodaeth briodol i staff, myfyrwyr, gweithwyr tymor byr, academyddion sy'n ymweld ac eraill sydd o dan eu rheolaeth ar weithredu eitemau perthnasol yn ddiogel.

v. Sicrhau bod contractwyr neu eraill a benodir i wneud gwaith ar eitemau perthnasol yn cael gwybodaeth briodol ynglŷn ag unrhyw risgiau a chamau rheoli cysylltiedig.

vi. Cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan yr unigolyn cyfrifol cyn i unrhyw addasiadau, newidiadau neu ychwanegiadau gael eu gwneud i'r seilwaith dŵr.

vii. Sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw, fel bo'n briodol, e.e. cofnodion cynnal a chadw, profion ac archwiliadau.

viii. Rhoi gwybod am yr holl achosion Clefyd y Lleng Filwyr a amheuir i'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch ar unwaith.

<u>Ar gyfer systemau chwistrellu dŵr/systemau lleithiad/systemau eraill sy'n gysylltiedig ag isadeiledd cyflenwad dŵr</u>

ix. Hysbysu'r unigolyn cyfrifol o fewn y tîm Isadeiledd Ystadau a Digidol cyn i systemau neu offer o'r fath gael eu prynu/gosod/comisiynu a'u datgomisiynu a phan fyddant yn cael eu tynnu/eu gwaredu.

x. Sicrhau na ddefnyddir systemau nes bod aseisad risg/cynllun ysgrifenedig Clefyd y Lleng Filwyr wedi ei baratoi.

xi. Gweithredu unrhyw reolaethau a amlinellir yn yr asesiad risg/cynllun ysgrifenedig Clefyd y Lleng Filwyr, yn cynnwys cadw cofnod o'r holl offer chwistrellu dŵr a lleithiad sy'n eiddo i'r brifysgol gyda chofnodion o archwiliadau, profion a chynnal a chadw a gynhaliwyd ar y system/offer a gedwir.

## 8. DYLETSWYDDAU STAFF A MYFYRWYR

Mae'n rhaid i bob aelod staff a phob myfyriwr wneud y canlynol:

i. Peidio ag ymyrryd â systemau/cyfarpar a ddarparwyd at ddibenion diogelwch na'u camddefnyddio.

ii. Gweithredu offer yn unol ag arferion da ac unrhyw reolau diogelwch lleol.

iii. Rhoi gwybod yn syth am unrhyw bryderon i'w goruchwyliwr, rheolwr llinell, a chydlynydd iechyd a diogelwch lleol, neu'n uniongyrchol i'r Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch.

iv. Ar gyfer myfyrwyr preswyl (Neuaddau), rhoi gwybod i Swyddfa'r Neuaddau am absenoldebau o dros 7 diwrnod a chontractau sydd wedi eu terfynu'n gynnar.

## 9. DYLETSWYDDAU CONTRACTWYR

Mae'r holl gontractwyr a gyflogir i weithio ar adeiladwaith/seilwaith unrhyw adeilad yn y brifysgol yn gyfrifol am sicrhau eu bod nhw ac unrhyw isgontractwyr sy'n adrodd iddynt yn cyflawni eu gweithgareddau mewn ffordd sy'n cydymffurfio â gofynion y polisi hwn a'r ACOP: L8.

## 10. ADRODDIADAU AM ACHOSION O GLEFYD Y LLENG FILWYR A AMHEUIR/PROFION CLEFYD Y LLENG FILWYR POSITIF

Rhaid rhoi gwybod am yr holl achosion o Glefyd y Lleng Filwyr a amheuir a/neu brofion Clefyd y Lleng Filwyr positif i'r Pennaeth Iechyd a Diogelwch ar unwaith. Bydd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch wedyn yn penderfynu pa gamau y mae'n rhaid eu cymryd fesul achos gan gysylltu â'r tîm Isadeiledd Ystadau a Digidol, yr unigolyn cyfrifol ac eraill yn y sefydliad fel bo'r angen. Bydd y Pennaeth Iechyd a Diogelwch yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Gweithrediad Iechyd a Diogelwch am bob achos o Glefyd y Lleng Filwyr a gadarnhawyd.

## 11. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Ni ddylai'r polisi hwn gael unrhyw effaith niweidiol ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig.

## 12. CANLLAWIAU PELLACH

- L8: Rheoli Bacteria Clefyd y Lleng Filwyr mewn Systemau Dŵr. Cod Ymarfer a gymeradwywyd.
- Taflen wybodaeth: Rheoli peryglon Clefyd y Lleng Filwyr gydag offer sy'n eiddo i goleg/ysgol/gwasanaeth.

## 14. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Bydd y tîm Iechyd a Diogelwch Craidd yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau y cydymffurfir â’r Polisi hwn a chyda'r ddeddfwriaeth yn gyffredinol.

Rhaid i'r colegau / ysgolion / gwasanaethau proffesiynol adolygu eu gweithdrefnau eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y Polisi’n cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

**Diwedd.**